County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MERCHER, 12 IONAWR 2022, 4.30 PM |
| **Lleoliad** | CYFARFOD O BELL |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Jenkins (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr Ahmed, Carter, Gibson, Philippa Hill-John, Lent, Lister, Mackie a/ac McGarry |

Tua Amser.

**1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 Datgan Buddiannau**

I'w gwneud ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

**3 Cofnodion** *(Tudalennau 5 - 10)*

Cymeradwyo cofnodion 8 Rhagfyr 2021 y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.

**4 Atal Troseddau Treisgar Difrifol yng Nghaerdydd** *(Tudalennau 11 - 42)* 4.35 pm

Derbyn proffil gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar droseddau treisgar difrifol yng Nghaerdydd. Rhoi cipolwg ar y cyd-destun lleol, proffil problemau ac asesiad anghenion strategol.

Mae'r eitem hon yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor asesu'r cyd-destun presennol, y mesurau sydd ar waith a rôl y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol o ran mynd i'r afael â throseddau treisgar difrifol a'u hatal a dysgu am unrhyw heriau cysylltiedig.

Bydd hefyd yn gyfle i'r Pwyllgor gael trosolwg o'r Strategaeth Atal Trais sydd ar ddod a chyfrannu at ei datblygiad.

Wrth ystyried y pwnc hwn, bydd y gwaith craffu hwn yn cael ei rannu fel a ganlyn:

- **<u>Trosolwg o'r Cyd-destun Lleol.</u> (4:35pm)**
  Bydd Cyd-Gadeiryddion y Bwrdd Arweinyddiaeth Diogelwch Cymunedol a'r Grŵp Cyflawni yn cael eu cefnogi gan swyddogion o'r Bwrdd i friffio'r Pwyllgor ar gyd-destun lleol troseddau treisgar difrifol yng Nghaerdydd. Bydd y briffio'n cynnwys proffil problemau Caerdydd, gan gynnwys ystadegau a ffigurau diweddar a'r asesiad anghenion strategol sy'n gysylltiedig â'r mater. Dilynir hyn gan Sesiwn Holi ac Ateb i Aelodau'r Pwyllgor i archwilio'r cyd-destun lleol yn fanwl.

- **<u>Gwaith y Grŵp Atal Trais a Datblygu'r Strategaeth Atal Trais</u> (5:25pm)**
  I Aelodau'r Pwyllgor gael eu briffio ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i fynd i'r afael â throseddau treisgar yng Nghaerdydd a'u hatal. Bydd y briffio hefyd yn cynnwys cipolwg ar y Strategaeth Atal Trais sydd ar ddod. Dilynir hyn gan Sesiwn Holi ac Ateb i Aelodau'r Pwyllgor archwilio'r gwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn yn fanwl.

- **<u>I'w gadarnhau: Sesiwn Dystiolaeth gyda sefydliad sy'n berthnasol i droseddau treisgar difrifol (6:00pm)</u>**
  I'r Aelodau ymgysylltu â chynrychiolaeth berthnasol i drafod effaith troseddau treisgar ar drigolion Caerdydd a chlywed eu safbwynt ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater.

- **<u>Sylwadau Clo/Myfyrio (6:15pm)</u>**
  Rhoi cyfle i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac Aelodau o'r Pwyllgor fyfyrio a gwneud unrhyw sylwadau pellach cyn i'r cyfarfod gloi.

**5 Materion Brys (os o gwbl)**

**6 Y Ffordd Ymlaen** 6.25 pm

**7 Dyddiad y cyfarfod nesaf - Dydd Llun 21 Chwefror 2022, 1:30pm**

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Iau, 6 Ionawr 2022
Cyswllt: Andrea Redmond, 02920 872434, a.redmond@caerdydd.gov.uk

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Gall aelodau'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd